

# Eich Taith Hawliau

Gweithgaredd Hawliau'r Gwanwyn

Llysgenhadon Cymunedol



# Eich Taith Hawliau

Nawr bod Sally'n cyrraedd diwedd ei chyfnod fel Comisiynydd Plant, dyma fydd ei Gweithgaredd Hawliau olaf. Bydden ni'n hoffi i chi fanteisio ar y cyfle i feddwl am daith hawliau eich grŵp. Roedden ni'n meddwl y byddai'n gyfle da i chi feddwl am y gwaith rydych chi eisoes wedi'i wneud a gosod rhai nodau ar gyfer y dyfodol hefyd.

Bydd gan rai grwpiau daith hawliau hir, a bydd grwpiau eraill yn cychwyn ar eu taith. Isod fe gewch chi gynllun i'ch cefnogi wrth i chi greu eich taith hawliau. Os yw hawliau'n newydd i chi, rydyn ni wedi ychwanegu rhai syniadau eraill, sydd i'w gweld wrth y symbol \*.

Gallwch chi fapio eich taith gan ddefnyddio'r canllawiau 'map ffordd' ar y dudalen nesaf ond hefyd croesawn syniadau eich hun i fapio eich siwrne, a all cynnwys: cyflwyniad, casgliad o luniau a darluniau, negeseuon audio neu fideo ohonoch chi'n trafod eich gwaith hawliau. (yr holl dasgau arbennig llysgenhadon)

Ar ôl i chi orffen eich map gallwch ei rannu gyda ni ar Twitter trwy drydar am [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) neu drwy anfon e-bost i [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)



## Cynllunio eich taith hawliau

Dilynwch y cynllun yma os ydych chi wedi gwneud llawer o waith ar hawliau plant a dymunwch dangos eich taith gan ddefnyddio map ffordd.

1. Tynnwch lun o'ch map ffordd. Ar ddechrau'r ffordd rhowch y flwyddyn pryd dechreuoch chi ddysgu am hawliau, ac ar ddiwedd y ffordd rhowch y flwyddyn 2022.
2. Edrychwch ar ein rhestr o Weithgareddau Hawliau ac ychwanegwch y rhai mae eich grŵp wedi'u gwneud at eich map ffordd.

\*os ydych chi heb wneud Gweithgaredd Hawliau eto, gallech chi ddewis rhai yr hoffech chi roi cynnig arnyn nhw yn y dyfodol a'u hychwanegu at eich ffordd.

3. Meddyliwch am eich hoff Weithgaredd Hawliau a'i ychwanegu at eich map. Gofalwch eich bod yn esbonio pam roedd hwn yn ffeffryn i chi.
4. Nesaf, tynnwch lun "Gorsaf y Dychymyg" ac ysgrifennu'r peth mwyaf creadigol rydych chi wedi'i wneud i ddysgu am hawliau. Gallai hynny olygu arddangosfa lunioch chi; gêm gwnaethoch chi greu, neu ddigwyddiad gynhalioch chi.

\*os ydych chi heb ddechrau dysgu am hawliau eto, gallech chi feddwl am rywbeth byddech chi'n hoffi ei greu i bawb yn eich grŵp.

5. Meddyliwch am eich "Tair Seren a Dymuniad", sef tri pheth rydych chi'n meddwl eich bod chi'n eu gwneud yn dda ac un peth hoffech chi wneud nesaf i ddysgu am hawliau plant yn eich grŵp.
6. Rhannwch eich taith gyda ni. Gallwch chi wneud hynny trwy drydar am [@complantcymru](mailto:post@complantcymru.org.uk) neu e-bostio [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)

**Gweithgareddau Hawliau i Lysgenhadon** – *Dyma restr o'r holl Weithgareddau Hawliau ers i Sally ddod yn Gomisiynydd Plant Cymru.*

| <b>Blwyddyn</b> | <b>Tymor</b> | <b>Tasg</b>  |
|-----------------|--------------|--|
| 2015            | Hydref       | Beth Nesa/What Next – arolwg cyntaf Sally<br>(Fe ddwedsoch chi wrthyn ni am eich blaenoriaethau i Sally) |
| 2016            | Gwanwyn      | Adborth i ddisgyblion eraill ar ganlyniadau Beth Nesa/What next –  |
| 2016            | Haf          | Adborth ar ein gwefan  |
| 2016            | Hydref       | Stori Sam (dewis o weithgareddau creadigol)  |
| 2017            | Gwanwyn      | Ein Hawliau  |
| 2017            | Haf          | Gwerthuso'r Cynllun Llysgenhadon   |
| 2017            | Hydref       | Stori Sam (cynlluniau gwersi)  |
| 2018            | Gwanwyn      | Taclo Islamoffobia   |
| 2018            | Haf          | Archwiliad Hawliau   |
| 2018            | Hydref       | Beth Nawr – ail arolwg Sally   |
| 2019            | Gwanwyn      | Seiberfwlio  |
| 2019            | Haf          | Archwiliad Hawliau   |
| 2019            | Hydref       | Prosiect Gwyrdd-droi   |
| 2020            | Gwanwyn      | <a href="#">Gwneud Gwahaniaeth</a>   |
| 2020            | Haf          | <a href="#">Arolwg Coronafeirws a Fi</a>   |
| 2020            | Hydref       | <a href="#">Dyma Fi</a>  |
| 2021            | Gwanwyn      | Prosiect Pleidlais   |
| 2021            | Haf          | Haf o Hwyl   |
| 2021            | Hydref       | Llesiant yn eich Ysgol/Cymuned   |
| 2022            | Gwanwyn      | Taith Eich Hawliau   |

